

Bwletin ystadegol

Hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021

Hunaniaeth o ran rhywedd preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr, data Cyfrifiad 2021.



Cysylltu â:
Michael Roskams
census.customerservices@ons.gov.uk
+44 1329 44 4972

Dyddiad rhyddhau:
6 Ionawr 2023

Rhyddhad nesaf:
I'w gyhoeddi

Cynnwys

1. Prif bwyntiau
2. Hunaniaeth o ran rhywedd
3. Sut roedd hunaniaeth o ran rhywedd yn amrywio ledled Cymru a Lloegr
4. Cyhoeddiadau yn y dyfodol
5. Hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru a Lloegr: data
6. Geirfa
7. Mesur y data
8. Cryfderau a chyfyngiadau
9. Dolenni cysylltiedig
10. Cyfeirio at y bwletin ystadegol hwn

1. Prif bwyntiau

- Roedd cwestiwn y cyfrifiad ar hunaniaeth o ran rhywedd yn gwestiwn gwirfoddol a ofynnwyd i bobl 16 oed a throsodd. Roedd y cwestiwn yn gofyn “Ydy’r rhywedd rydych chi’n uniaethu ag ef yr un peth â’r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?”.
- Atebodd 45.7 miliwn (94.0% o’r boblogaeth 16 oed a throsodd) y cwestiwn.
- Atebodd 45.4 miliwn (93.5%) “Ydy” ac atebodd 262,000 (0.5%) “Nac ydy”.
- Ni wnaeth y 2.9 miliwn sy’n weddill (6.0%) ateb y cwestiwn.

2. Hunaniaeth o ran rhywedd

Mae hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfeirio at ymdeimlad unigolyn o’i rywedd ei hun, boed yn wrywaidd, benywaidd neu gategori arall fel anneauidd. Gall hwn fod yr un peth â’r rhyw a gofrestrwyd pan y’i ganwyd neu ddim.

Roedd y cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd yn gwestiwn newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. Cafodd ei ychwanegu i ddarparu’r data swyddogol cyntaf ar faint y boblogaeth drawsryweddol yng Nghymru a Lloegr. Bydd y data yn helpu i wneud y canlynol:

- darparu gwybodaeth o ansawdd gwell at ddibenion monitro
- cefnogi dyletswyddau gwrthwahananiaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- helpu i ddyrannu adnoddau a datblygu polisïau

Roedd y cwestiwn hwn yn wirfoddol a dim ond i bobl 16 oed a throsodd y gwnaethom ei ofyn. Gofynnwyd i bobl “Ydy’r rhywedd rydych chi’n uniaethu ag ef yr un peth â’r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?”, ac roedd yn cynnwys yr opsiwn o ddewis “Ydy”, neu ddewis “Nac ydy” ac ysgrifennu eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Ledled Cymru a Lloegr, cafwyd ymatebion gan 45.7 miliwn o bobl (94.0% o’r boblogaeth 16 oed a throsodd).

Atebodd cyfanswm o 45.4 miliwn (93.5%) “Ydy”, gan nodi bod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â’r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni.


Atebodd cyfanswm o 262,000 o bobl (0.5%) “Nac ydy”, gan nodi bod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni. O fewn y grŵp hwn:

- atebodd 118,000 (0.24%) “Nac ydy” ond heb ysgrifennu ymateb
- nododd 48,000 (0.10%) ddyn traws
- nododd 48,000 (0.10%) fenyw draws
- nododd 30,000 (0.06%) anneauidd

- ysgrifennodd 18,000 (0.04%) hunaniaeth o ran rhywedd gwahanol

Ni wnaeth y 2.9 miliwn sy'n weddill (6.0%) ateb y cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd.

Ffigur 1: Hunaniaeth o ran rhywedd, 2021, Cymru a Lloegr



Source: Office for National Statistics – Census 2021

3. Sut roedd hunaniaeth o ran rhywedd yn amrywio ledled Cymru a Lloegr

Mae data Cyfrifiad 2021 yn datgelu sut roedd hunaniaeth o ran rhywedd yn amrywio ledled Cymru a Lloegr. Gan mai cwestiwn gwirfoddol oedd hwn, byddwch yn ymwybodol o'r gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb wrth gymharu ardaloedd gwahanol.

Roedd canran y boblogaeth 16 oed a throsodd a nododd fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'w rhyw pan gawsant eu geni ychydig yn uwch yn Lloegr (0.55%) nag yng Nghymru (0.40%).

Yn Lloegr, y rhanbarth â'r ganran uchaf a nododd bod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'w rhyw pan gawsant eu geni oedd Llundain (0.91%), a'r rhanbarth â'r ganran isaf oedd De-orllewin Lloegr (0.42%).

O gymharu â Chymru a Lloegr gyfan, roedd gan Lundain ganrannau uwch o bobl a nododd ddyw traws (0.16%), a nododd fenyw draws (0.16%), ac a atebodd “Nac ydy” ond na wnaethant ysgrifennu ymateb (0.46%).

Tabl 1 : Hunaniaeth o ran rhywedd, 2021, Cymru, Lloegr, a rhanbarthau Lloegr

Table 1: Gender identity, 2021, England, Wales and regions of England

Area Name	Gender identity the same as sex registered at birth (percent)	Gender identity different from sex registered at birth but no specific identity given (percent)	Trans woman (percent)	Trans man (percent)	Non-binary (percent)	All other gender identities (percent)	Not answered (percent)
England	93.47	0.25	0.10	0.10	0.06	0.04	5.98
Wales	93.28	0.16	0.07	0.08	0.06	0.04	6.32
North East	94.81	0.20	0.08	0.09	0.06	0.03	4.73
North West	94.19	0.23	0.09	0.09	0.06	0.03	5.31
Yorkshire and The Humber	93.65	0.25	0.09	0.09	0.06	0.04	5.81
East Midlands	93.44	0.22	0.08	0.09	0.06	0.03	6.08
West Midlands	93.14	0.26	0.10	0.10	0.05	0.03	6.33
East of England	93.92	0.20	0.09	0.09	0.05	0.04	5.62
London	91.21	0.46	0.16	0.16	0.08	0.05	7.88
South East	94.12	0.18	0.09	0.09	0.07	0.04	5.42
South West	93.99	0.14	0.08	0.08	0.07	0.04	5.59


Source: Office for National Statistics - Census 2021

O'r 10 awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yr oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'w rhyw pan gawsant eu geni, roedd 8 yn Llundain, gyda Newham (1.51%) a Brent (1.31%) ar frig y rhestr. Y ddau awdurdod lleol y tu allan i Lundain a oedd yn y 10 uchaf oedd Rhydychen (1.25%), a oedd yn drydydd, a Norwich (1.07%), a oedd yn nawfed. Yng Nghymru, yr awdurdodau lleol oedd â'r canrannau uchaf oedd Caerdydd (0.71%) a Cheredigion (0.70%).

O ran hunaniaethau penodol o ran rhywedd, Brent a Newham oedd â'r canrannau uchaf a nododd ddyn traws (0.28% a 0.25%, yn y drefn honno), a Barking a Dagenham oedd â'r ganran uchaf a nododd fenyw draws (0.25%). Newham oedd â'r ganran uchaf o bobl a atebodd "Nac ydy" ond na wnaethant ysgrifennu ymateb (0.91%). Yng Nghymru, Caerdydd oedd â'r ganran uchaf a nododd ddyn traws (0.12%) a'r ganran uchaf a nododd fenyw draws (0.13%).

Roedd y pum awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth 16 oed a throsodd a nododd anneauaidd i gyd y tu allan i Lundain. Brighton a Hove oedd â'r ganran uchaf (0.35%), yna Norwich (0.33%) a Chaergrawnt (0.26%). Ceredigion oedd yn y pumed safle (0.23%), a dyma'r awdurdod lleol oedd â'r ganran uchaf a nododd anneauaidd yng Nghymru.

Ffigur 2: Hunaniaeth o ran rhywedd, 2021, awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr



Source: Office for National Statistics – Census 2021

4. Cyhoeddiadau yn y dyfodol

Caiff data a dadansoddiadau manylach ar hunaniaeth o ran rhywedd eu cyhoeddi yn y misoedd i ddod, a chaiff data amlamryweb eu rhyddhau. Darllenwch fwy am ein [cynlluniau dadansoddi ynghylch cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd](#) (yn Saesneg) a'r [cynlluniau datganiadau ar gyfer Cyfrifiad 2021](#) yn fwy cyffredinol.

5. Hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru a Lloegr: data

[Hunaniaeth o ran rhywedd](#)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 6 Ionawr 2023

Mae'r set ddata hon yn rhoi amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd.

[Hunaniaeth o ran rhywedd \(manwl\)](#)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 6 Ionawr 2023

Mae'r set ddata hon yn rhoi amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd.

6. Geirfa

Hunaniaeth o ran rhywedd

Mae hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfeirio at ymdeimlad unigolyn o'i rywedd ei hun, boed yn wrywaidd, benywaidd neu gategori arall fel anneauidd. Gall hwn fod yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan y'i ganwyd neu ddim.

Hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni ond ni nodwyd hunaniaeth benodol

Dyma'r bobl a atebodd "Nac ydy" i'r cwestiwn "Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?" ond nid oeddent wedi ysgrifennu hunaniaeth o ran rhywedd.

Anneauidd

Nid yw rhywun sy'n anneauidd yn uniaethu â chategoriâu deuaidd dyn a menyw. Yn y canlyniadau hyn, mae'r categori'n cynnwys pobl a nododd y term penodol "anneuaidd" neu amrywiolion eraill. Fodd bynnag, mae'r rheini a ddefnyddiodd dermau eraill i ddisgrifio hunaniaeth nad oedd yn benodol yn ddyn nac yn fenyw wedi'u dosbarthu yn "Pob hunaniaeth o ran rhywedd arall".

Dyn traws

Dyn traws yw rhywun a gofrestrwyd yn fenywaidd pan gafodd ei eni, ond sydd bellach yn uniaethu fel dyn.

Menyw draws

Menyw draws yw rhywun a gofrestrwyd yn wrywaidd pan gafodd ei geni, ond sydd bellach yn uniaethu fel menyw.

Preswlydd arferol

Ystyr preswlydd arferol yw unrhyw un a oedd, ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, sef 21 Mawrth 2021, yn y Deyrnas Unedig ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu a oedd â chyfeiriad parhaol yn y Deyrnas Unedig ac a oedd y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac yn bwriadu aros y tu allan i'r Deyrnas Unedig am lai na 12 mis.

7. Mesur y data

Dyddiad cyfeirio

Mae'r cyfrifiad yn rhoi amcangyfrifon o nodweddion pob unigolyn a chartref yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021. Caiff ei gynnal unwaith bob 10 mlynedd ac mae'n rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr i ni.

Cyfradd ymateb

[Cyfradd ymateb gyffredinol unigolion](#) (yn Saesneg) ar gyfer y cyfrifiad yw nifer y preswylwyr arferol y cafodd manylion unigol eu darparu ar eu cyfer ar holiadur a ddychwelwyd, wedi'i rannu ag amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl arferol.

Y gyfradd ymateb unigolion ar gyfer Cyfrifiad 2021 oedd 97% o boblogaeth breswyl arferol Cymru a Lloegr, a dros 88% ym mhob awdurdod lleol. Cafodd y rhan fwyaf o ffurflenni (89%) eu derbyn ar lein. Gwnaeth y gyfradd ymateb ragori ar ein targed, sef 94% yn gyffredinol ac 80% ym mhob awdurdod lleol.

Darllenwch fwy am gyfraddau ymatebion ar gyfer cwestiynau penodol ar lefel awdurdod lleol yn [Adran 4 o'n mesurau sy'n dangos ansawdd amcangyfrifon Cyfrifiad 2021](#) (yn Saesneg).

8. Cryfderau a chyfyngiadau

Ceir ystyriaethau o ansawdd ynghyd â chryfderau a chyfyngiadau Cyfrifiad 2021 yn fwy cyffredinol yn yr adroddiad [Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg ar gyfer Cyfrifiad 2021](#). Darllenwch fwy am y wybodaeth am ansawdd ar gyfer [cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd](#) (yn Saesneg).

Ceir rhagor o wybodaeth am ein prosesau sicrhau ansawdd eraill yn ein methodoleg [Sicrhau bod amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 o'r ansawdd gorau posibl](#) (yn Saesneg).

9. Dolenni cysylltiedig

[Map y Cyfrifiad](#) (yn Saesneg)

Cynnwys rhyngweithiol | Diweddarwyd ar 6 Ionawr 2023

Adnodd map rhyngweithiol sy'n delweddu data Cyfrifiad 2021 ar bynciau gwahanol i lawr i ardal awdurdod lleol a lefel cymdogaeth.

[Gwybodaeth am ansawdd data am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd o Gyfrifiad 2021](#) (yn Saesneg)

Methodoleg | Rhyddhawyd ar 6 Ionawr 2023

Gwybodaeth hysbys am ansawdd sy'n effeithio ar ddata am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd o Gyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr.

[Newidynnau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, Cyfrifiad 2021](#)

Gwybodaeth ategol | Rhyddhawyd ar 4 Ionawr 2023

Newidynnau a dosbarthiadau a ddefnyddir yn nata Cyfrifiad 2021 am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

[Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\)](#)

Bwletin ystadegol | Rhyddhawyd ar 6 Ionawr 2023

Crynodeb gan Lywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021 ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru.

10. Cyfeirio at y bwletin ystadegol hwn

Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), rhyddhawyd ar 6 Ionawr 2023, gwefan SYG, bwletin ystadegol, Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021